

MEDALS NODIADAU

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi genedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau a'r gwyddorau

Daw ein Cymrodoriaeth ag 540 arbenigwyr at ei gilydd o bob maes academiaidd a thu hwnt. Defnyddiwn yr wybodaeth gyfunol hon i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysg a darparu cyngor polisi annibynnol. Am rhagor o wybodaeth, ewch i: cymdeithasddysgedig.cymru

Frances Hoggan Medal



Dr Frances Hoggan

Roedd Dr Frances Hoggan yn ymchwilydd meddygol arloesol o Gymru, yn ddiwygiwr cymdeithasol ac yn ffigur pwysig yn y frwydr i ganiatáu i fenywod astudio meddygaeth yn y 19eg ganrif. Ganwyd Frances Hoggan (nee Morgan) yn Aberhonddu yn 1843. Dechreuodd ei hastudiaethau meddygol yn Llundain yn 1866 ond oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig i fenywod yn y DU, cofrestrodd ym Mhrifysgol Zurich yn 1867, yr unig brifysgol yn Ewrop ar y pryd oedd yn derbyn myfyrwyr meddygol benywaidd. Graddiodd ym mis Mawrth 1870 a hi oedd yr ail fenyw yn Ewrop

i ennill Doethuriaeth Feddygol. Treuliodd flynyddoedd cyntaf ei gyrfa feddygol fel ymarferydd yn gweithio gyda Dr Elizabeth Garrett yn yr Ysbyty Newydd i Fenywod yn Llundain. Cydweithiodd hefyd gyda Dr Elizabeth Blackwell i sefydlu'r Gymdeithas Iechyd Gwladol yn 1872 a gynlluniwyd 'i hyrwyddo iechyd ymhlith pob dosbarth yn y boblogaeth'. Sicraodd Hoggan ei thrwydded i ymarfer gan Goleg Meddygon King and Queen's yn Iwerddon ym mis Chwefror 1877. Yn 1874, priododd Dr George Hoggan a gyda'i gilydd sefydlodd y ddau y practis meddygol gŵr a gwraig cyntaf, gan gyhoeddi pedwar deg dau o bapurau ymchwil meddygol. Daeth Frances yn arbenigwr ar glefydau menywod a phlant.

Noddir y fedal gan Lywodraeth Cymru

The Dillwyn Medals

Mae'r medalau Dillwyn wedi'u henwi er anrhydedd i deulu nodedig Dillwyn o Abertawe a gyflawnodd arbenigedd eithriadol ar draws sawl maes gweithgaredd deallusol yn y celfyddydau a'r gwyddorau.



Mae cyswllt teulu Dillwyn â Chymru'n dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif, a dyfodiad yr ymgyrchydd gwrth-gaethwasiaeth, William Dillwyn. Cyhoeddodd ei fab, y botanegydd talentog Lewis Weston Dillwyn, sawl astudiaeth wyddonol bwysig yn ogystal â chynhyrchu crochenwaith a phorslen artistig cain. Creodd Lewis, oedd yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol, ei gartref yn Penllergare ac yn ddiweddarach yn Neuadd Sgeti gyda "hinsawdd ddiwylliannol lle gallai ei holl blant, yn fechgyn a merched, ffynnu, a dilyn trywydd eu diddordebau gwyddonol ac artistig heb gyfyngiadau amser a chost". Yn 1848 helpodd gynnal y cyfarfod

cyntaf o Gymdeithas Prydain er Dyrchafu Gwyddoniaeth yng Nghymru.

Roedd mab Lewis, John Dillwyn Llewellyn yn rhagori mewn nifer o feysydd technolegol ac academiaidd gan gynnwys ffotograffiaeth, botaneg a seryddiaeth. Defnyddiai sawl aelod o'r teulu ystâd Penllergare fel canolfan ar gyfer eu hamrywiol ddiddordebau mewn gwyddoniaeth, seryddiaeth, gwleidyddiaeth, botaneg, ffotograffiaeth a dyngarwch. Yn anarferol yn y cyfnod hwn, roedd i'r menywod hefyd rôl flaenllaw mewn gwyddoniaeth a busnes, gan gynnwys Mary Dillwyn, ffotograffydd benywaidd cyntaf Cymru, Thereza Dillwyn Llewellyn oedd yn seryddwr ac yn ffotograffydd, ac Amy Dillwyn, diwydiannwr benywaidd cynnar a nofelydd iconoclastig.

Cefnogir y dyfarniadau gan **Swyddfa Dechnegol Gorfforaethol Airbus**

Hugh Owen Medal



Enwir y fedal er anrhydedd i Syr Hugh Owen (1804-1881).

Cefnogir y wobwr gan Lywodraeth Cymru, ac dyfernir i gydnabod ymchwil addysgol eithriadol, neu gymhwyso ymchwil i sicrhau arloesi sylweddol mewn polisi addysg a/neu arferion addysgol yng Nghymru.

Roedd Syr Hugh Owen yn addysgwr Cymreig, dyngarwr ac arloeswr addysg uwch arwyddocaol yng Nghymru. Ef oedd prif sylfaenydd Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth.

Yn weithredol o fewn gwaith y Gymdeithas Ysgolion Brytanaidd a Thramor yng Nghymru a'r Cambrian Educational Society yn y 19eg ganrif, cefnogodd Owen yn frwd agor ysgolion o'r fath yng Nghymru. Fel y cynyddodd nifer yr ysgolion o'r fath, gwelodd Owen yr angen am golegau hyfforddi athrawon yng Nghymru, ac yr oedd yn un o arweinwyr yr ymgyrchoedd ar gyfer sefydlu'r Coleg Normal Bangor yn 1858, coleg tebyg yn Abertawe, a choleg prifysgol Aberystwyth yn 1875.

Un o gymwynasau olaf Hugh Owen oedd sefydlu Cymdeithas Ysgoloriaethau Gogledd Cymru yn 1880, sef cronfa i ddarparu cymorth ariannol i alluogi plant o ogledd Cymru i fynychu ysgolion uwchradd.

Ym 1881, gosododd gynllun cyflawn ar gyfer addysg uwchradd yng Nghymru, a ddaeth i rym wedi ei farwolaeth ar ffurf Deddf Addysg Ganolradd Cymru 1889.

Menelaus Medal



Enwyd Medal **Menelaus** ar ôl peiriannydd mecanyddol a rheolwr cyffredinol Cwmni Haearn Dowlais, **William Menelaus** (1818-82).

Gefnogir y fedal gan **Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru (SWIEET)**.

Dyfernir **Medal Menelaus** yn flynyddol i gydnabod rhagoriaeth mewn unrhyw faes peirianneg a thechnoleg i academydd, i ymchwilydd diwydiannol neu i ymarferwr diwydiannol sy'n byw yng Nghymru, a anwyd yng Nghymru neu a all ddangos cysylltiad penodol â Chymru.

Ganwyd **William Menelaus** yn 1818 yn East Lothian yn yr Alban a symudodd i Gymru yn 1850 i ymuno â'r Dowlais Iron Company fel peiriannydd-reolwr adran y melinau a'r gefeiliau.

Fel rheolwr llwyddiannus, dyfeisiodd Menelaus nifer o ddyfeisiau trin mecanyddol a dyluniodd y Felin Gafr ddau-gyfeiriad newydd enfawr ar gyfer rhoio haearn. Ef oedd yr un a sbardunodd sylfaenu Sefydliad Peirianwyr De Cymru yn 1857 a hefyd Sefydliad Haearn a Dur Prydain Fawr. Roedd ei enw da fel peiriannydd yn deillio o'i ddyfeisiadau newydd a gyflwynwyd ganddo yn Nowlais. Ym mis Mai 1881, cyflwynwyd medal aur Bessemer i Menelaus i gydnabod ei wasanaeth i'r diwydiant haearn a dur.